# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| **ADRAN:** | Ysgolion |
| **SWYDD:** | Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd - Ysgolion |
| **GRADDFA'R SWYDD:** | GR07 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Pennaeth |

## DIBEN Y SWYDD:

Cefnogi'r ysgol i ganolbwyntio mwy ar y gymuned drwy weithio gyda theuluoedd dan anfantais a'u cynnwys yn y broses ddysgu.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:

- Datblygu a gweithredu rhaglen ymgysylltu a dysgu gyda theuluoedd gan gynnwys fforymau rhieni/gofalwyr / grwpiau cymorth a sicrhau bod teuluoedd a dargedir yn cael mynediad i'r cyfleoedd hyn. Gall hyn gynnwys coginio, ymarfer corff a gweithgareddau i wella llythrennedd/rhifedd.

- Gweithio gyda theuluoedd wedi'u targedu i gymryd rhan yn y broses ddysgu a bywyd yr ysgol. Cryfhau cysylltiadau â rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach i leihau effaith tlodi ac anfantais ar gyrhaeddiad addysgol.

- Gweithio a chysylltu ag amrywiaeth o asiantaethau proffesiynol, Gwasanaethau Cymdeithasol, Seicolegwyr Addysg, y Gwasanaeth Lles ac ati i hwyluso gweithio integredig a gwella deilliannau hirdymor i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

- Atal llithro'n ôl ac ymddieithrio drwy olrhain a monitro presenoldeb, cynnal adolygiadau rheolaidd a gweithredu camau priodol yn ôl yr angen.

- Sicrhau bod yr holl weithgareddau a gynhelir yn cael eu monitro/gwerthuso i fodloni gofynion cyllid grant / mesurau perfformiad.

- Cynnal ymweliadau â chartrefi lle y bo angen i gynorthwyo teuluoedd newydd y meithrin a mynd i'r afael â phroblemau presenoldeb.

- Gweithio'n agos gyda sefydliadau allanol (Coleg Penybont, Gweithredu dros Blant, Cymunedau yn Gyntaf ac ati) i hwyluso ymyriad, strategaethau i gynorthwyo ac i ddatblygu sgiliau personol.

- Cyfrannu at y gwaith a wneir gan yr Ysgol a chynnal dyletswyddau eraill sy'n ofynnol i liniaru effeithiau tlodi plant ar gyrhaeddiad addysgol.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

Deall y cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch o fewn rôl rheolwr a chyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch personol yn HASAWA 1974.

Sicrhau y gweithredir pob gweithgaredd yn unol â deddfwriaeth Cyfle Cyfartal ac Arfer Gorau.

**DYDDIAD ADOLYGU/HAWL I AMRYWIO**

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch graddfa.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

# MANYLEB Y PERSON

## Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd - Ysgolion

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • NVQ lefel 3 i Gynorthwywyr Addysgu neu gyfwerth neu brofiad y gellir ei ddangos.<br>• Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio mewn ysgolion neu gydag ysgolion.<br>• Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc neu ofalu amdanynt.<br>• Profiad o gynorthwyo a gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd difreintiedig.<br>• Profiad o waith amlasiantaeth.<br>• Profiad o gynnal gweithgareddau ymgysylltu â theuluoedd / llesiant fel Caffis Darllen, Dewch i Goginio, Help Llaw, The Place, magu plant yn gadarnhaol ac ati.<br>• Monitro a gwerthuso profiad. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirda a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Mae sgiliau rhyngbersonol ardderchog yn ofynnol, gyda'r gallu i ymgysylltu'n effeithiol â theuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n anodd eu cynnwys yn nysgu a gweithgareddau ysgol eu plant.<br>• Gallu datblygu perthnasoedd effeithiol â staff yr ysgol, | Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirda a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | adrannau CBSP ac asiantaethau eraill. | | |
| | • Gallu gweithio'n hyblyg a dangos agwedd ‘gallu gwneud’, gyda pharodrwydd i weithio y tu allan i'r diwrnod ysgol yn ôl y galw. | Ydy | |
| | • Gallu gweithio yn ôl eich menter eich hun neu mewn tîm. | Ydy | |
| | • Yn hyddysg ym maes TGCh | Ydy | |
| | • Trwydded yrru lawn a mynediad i gerbyd modur ar gyfer y gwaith. | Ydy | |
| | • Mae’r gallu I gyfarch cwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o’r gofynion ar gyfer y swydd hon. | | |